

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel

<http://senedd.tv/cy/4427>

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Tachwedd

2017

Amser: 09.03 – 11.32

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Jane Hutt AC David Rees AC Steffan Lewis AC Nick Ramsay AC
Tystion:	Anne Meikle, WWF Cymru Annie Smith, RSPB Hayley Richards, Oxfam Cymru Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru Isobel Garner, Swyddfa Archwilio Cymru Kevin Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru Steve O'Donoghue, Swyddfa Archwilio Cymru



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Catherine Hunt (Ail Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)
-------------------	--

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt AC, a oedd yn bresennol fel dirprwy yn lle Eluned Morgan AC, yn dilyn ei dyrchafiad i'r Llywodraeth fel Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 **PTN1 – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: amcangyfrif ar gyfer 2018–19 – 27 Hydref 2017**

3 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19: sesiwn dystiolaeth 6 (y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy)

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Anne Meikle, Cadeirydd y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy (WWF Cymru); Annie Smith, y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy (RSPB Cymru); a Hayley Richards, y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy (Oxfam Cymru) ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5 ac eitemau 7–10

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiad blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2016–17 ac amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2018–19: sesiwn dystiolaeth

6.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Isobel Garner, Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru; Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru; a Steve O'Donoghue, Cyfarwyddwr Cyllid Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiad blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2016–17 ac amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2018–19: trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

8 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016: Offerynnau Statudol

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau statudol a ganlyn, gan gytuno i gyflwyno adroddiad arnynt:

- Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Datgelu a Ganiateir) (Cymru) 2017: a
- Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Gweinyddu) (Cymru) 2017.

9 Goblygiadau ariannol Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

9.1 Trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol Bil Iechyd Cyhoeddus (Isafbris am Alcohol) (Cymru) a chytunodd i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gwaith craffu pellach.

10 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018–19: trafod ymateb Comisiwn y Cynulliad

10.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Comisiwn y Cynulliad cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn hwnnw.